# HARP: argymhellion

## Cyflwyniad

Mae HARP – partneriaeth Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl – yn archwilio sut y gallwn gynhyrchu, tyfu a dysgu ynghylch arloesi creadigol effeithiol sy'n cefnogi iechyd a lles pobl Cymru. Mae'n bartneriaeth arloesi ac ymchwil rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Nesta ac 'Y Lab' Prifysgol Caerdydd.

Gwyddom y gall y celfyddydau gael effaith gadarnhaol iawn ar ein hiechyd a'n lles. Fodd bynnag, gall cynllunio a gwreiddio gweithgareddau creadigol ar gyfer iechyd a lles fod yn gymhleth ac yn ansicr. Yn HARP, rydyn ni wedi ceisio dysgu mwy am sut gallwn ni gyflawni'r cyfleoedd ac ateb yr heriau hyn, gan gyfuno **cyllid grant ag adeiladu rhwydwaith, hyfforddi ac ymchwil** ar gyfer arloeswyr yn y celfyddydau ac iechyd. Fe wnaethom ni hyn gyda chymorth tîm People Powered Results Nesta, Rhwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru a Chydffederasiwn GIG Cymru.

Mae HARP wedi bod â dwy elfen arloesi benodol:

- ➔ yn rhaglen **Egin HARP** fe wnaethom adeiladu tri thîm bach newydd o gydweithredwyr yn y celfyddydau ac iechyd i ddylunio a phrofi gweithgareddau creadigol a oedd yn ateb heriau allweddol y system iechyd.
- ➔ yn rhaglen **Borthi HARP**, aethom ati i weithio gyda deg partneriaeth bresennol yn y tymor hwy i ganfod sut gellir gwreiddio gweithgareddau celfyddydol mewn lleoliadau iechyd.

## Dull gweithredu HARP


I ni, mae arloesi yn **broses o ddod o hyd i atebion newydd a gwell i heriau a wynebwn**. Trwy HARP, yn ogystal â chynnig cymorth a chyllid i'r timau y buom yn gweithio gyda nhw, fe aethom ati i ystyried y canlynol:

- ➔ pa ffurf fyddai i **broses arloesi** ym maes y 'celfyddydau ac iechyd'?
- ➔ sut gallai pobl a thimau **gynhyrchu, cynnal a datblygu'r** syniadau creadigol gorau er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau iechyd?
- ➔ beth all cydweithredwyr yn y celfyddydau ac iechyd ei wneud, ynghŷd â chyllidwyr, arweinwyr iechyd a gofal, academyddion, llunwyr polisi a hwyluswyr rhwydwaith, er mwyn **helpu arloesedd i ffynnu?**

O'n gwaith gyda thimau arloesi HARP, rydyn ni wedi crynhoi'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu i greu **dull gweithredu HARP**, gan ddangos beth gall proses arloesi wedi'i hysgogi gan bobl ei gynnig i dimau a phrosiectau sydd am ddefnyddio'r celfyddydau i wella iechyd

a lles pobl, neu i ateb heriau iechyd a gofal, gyda'r nod yn y pen draw o drawsnewid systemau iechyd.

**Dull gweithredu HARP: fframwaith i gefnogi arloesi yn y celfyddydau ac iechyd**




Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â dull gweithredu HARP, gan awgrymu camau gweithredu allweddol y gall pobl yn y swyddi hyn eu cymryd i gefnogi a galluogi arloesi sy'n cael ei ysgogi gan bobl yn y celfyddydau ac iechyd yn y dyfodol:

- ⇨ **buddsoddwyr (cyllidwyr)**
- ⇨ **arweinwyr iechyd a gofal**
- ⇨ **ymchwilwyr a gwerthuswyr**
- ⇨ **hwyluswyr rhwydwaith y celfyddydau ac iechyd**
- ⇨ **llunwyr polisi**

Cawsant eu **creu ar y cyd â'r 13 o dimau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd** y buom yn gweithio gyda nhw yn HARP, yn seiliedig ar arsylwadau ymarferol, ar sail data a gasglwyd gan dîm ymchwil HARP a'n partneriaid.

Dylai ein hargymhellion helpu pobl sy'n gweithio yn y swyddi hyn i wybod sut y mae modd ddiynt gefnogi timau sy'n gweithio yn y maes hwn ar hyn o bryd. Dydyn nhw ddim yn rhestr gyflawn o bopeth y gallai pobl fod yn ei wneud, nac yn feirniadaeth: rydyn ni'n cydnabod bod yr hyn rydyn ni'n ei argymell yn uchelgeisiol ac yn dod ar adeg anodd i lawer o'r grwpiau rydyn ni'n siarad â nhw.  Rydyn ni bob amser yn argymell bod yn uchelgeisiol a meddwl am sefyllfaoedd 'delfrydol', gan hefyd wneud eich gorau glas.

Gyda hynny mewn golwg, bwriad yr argymhellion hyn yw ysbrydoli, adeiladu a manteisio ar y gwaith gwych y mae llawer o bobl yn y swyddi hyn eisoes yn ei wneud.

**Mai 2022**

Rosie Dow, Charlene Stagon, Jessica Clark, Dr Sofia Vougioukalou

1. **Argymhellion ar gyfer buddsoddwr i gefnogi timau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd**

***chi yw hwn os**: ydych chi'n gweithio i ymddiriedolaeth neu sefydliad sydd â diddordeb mewn cefnogi'r maes hwn, cyngor ymchwil yn y DU, neu un o gyllidwyr y llywodraeth (ee Cyngor Celfyddydau Cymru).*

## prif argymhelliad cyffredinol

➔ Bod yn strategol: datblygu rhaglenni buddsoddi lle mae'r **math o gymorth** rydych chi'n ei gynnig (grantiau, hyfforddiant, cymorth anariannol) yn helpu prosiectau arloesi i lwyddo yn y tymor hir ar bob cam, o'r gwaith paratoi hyd at dyfu

## gwaith paratoi

➔ cynnig **grantiau datblygu ochr yn ochr â hyfforddiant** i helpu timau arloesi i feithrin perthnasoedd cryf ar gyfer partneriaethau iechyd a chelfyddydau tymor hir, gan wybod y bydd hyn yn arwain at fanteision tymor hir drwy adeiladu sylfeini cryfach ar gyfer gwaith cymhleth

➔ cefnogi **prosiectau cydweithredol amrywiol** yn fwriadol sy'n cynnwys artistiaid a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o archwilio her iechyd

➔ Profi **gwahanol ffyrdd o weithio** gydag ymgeiswyr am grantiau, ee cyfarfodydd, ceisiadau am gyfryngau cymysg, prosesau dau gam, cymesur o ystyried faint o gyllid sydd ar gael: peidiwch â gorlwytho sefydliadau bach a gwnewch yn siŵr bod y broses yn ddefnyddiol i bawb dan sylw, nid dim ond eich proses ddethol.

## profi

➔ Cynnig (neu alluogi) cyllid a chymorth anariannol i **bartneriaethau Ymchwil a Datblygu** lle gellir archwilio syniadau ynghylch her iechyd. Byddwch yn hyblyg gyda cherrig milltir, amserlenni a niferoedd y cyfranogwyr fel y gall timau prosiect brofi, dysgu, methu, iteru a llwyddo mewn nod cyffredinol o ddysgu pa syniadau fydd yn cyflawni eu hamcanion orau (yn hytrach na chynyddu niferoedd)

➔ ar gyfer prosiectau partneriaeth gyda sefydliadau iechyd a gofal, **cadarnhau bod digon o amser, adnoddau ac arweinyddiaeth wedi cael eu hymrwymo** gan yr holl bartneriaid, gyda nawdd ar lefel uwch ar gael, cyn cytuno i ariannu.

➔ cynnwys **hyfforddiant a chostau gwerthuso archwiliadol** mewn prosiectau cam 'profi'

## buddsoddi

➔ cynnig **buddsoddiadau mwy dros 2-3 blynedd** mewn prosiectau ar y cam hwn er mwyn i dimau allu ymgymryd â gwaith ymchwil/gwerthuso priodol (ee grantiau

academaidd wedi'u harwain gan ymchwil), hyfforddi mwy o ymarferwyr a datblygu eu hadnoddau i wreiddio prosiectau yn y tymor hir a meithrin perthnasoedd newydd ar gyfer tyfu.

➔ sicrhau bod **costau craidd** yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn prosiectau ar y cam hwn, yn enwedig cyfathrebu a chodi arian, er mwyn i dimau allu meithrin eu gallu i gynhyrchu portffolio o ffynonellau ariannu tymor hir.

➔ ystyried **beth rydych chi'n ceisio ei ddysgu** o bob rhaglen ariannu, darparu cyfleoedd i brosiectau a ariennir gefnogi ei gilydd ac arwain at ddysgu ar y cyd (rhwydweithio, hyfforddi); rhannu'r hyn rydych chi'n ei ddysgu â chyllidwyr eraill

## tyfu

➔ ariannu prosiectau sy'n seiliedig ar dystiolaeth briodol ar **sail tymor hwy** er mwyn i brosiectau allu tyfu o ran maint ac er mwyn i bartneriaid iechyd allu dibynnu arnyn nhw

➔ **rhannu a chynyddu stori'r** prosiectau rydych chi'n eu hariannu, a'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu, gyda chyllidwyr eraill, arweinwyr iechyd a gofal, a llunwyr polisi

## 2. Argymhellion ar gyfer arweinydd iechyd a gofal i gefnogi timau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd

***chi yw hwn os**: oes gennych chi rôl lefel canolig-uwch mewn sefydliad iechyd neu ofal (bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth GIG, elusen iechyd, awdurdod lleol neu arall). Mae eich rôl yn debygol o gwmpasu cynllunio, darparu adnoddau a chomisiynu gwasanaethau iechyd/gofal.*

### prif argymhelliad cyffredinol

➔ Dechrau sgyrsiau ag ymarferwyr y celfyddydau: **dywedwch wrthynt beth yw eich blaenoriaethau strategol mwyaf** (ee iechyd meddwl, rhestrau aros, lles staff) a pha **ganlyniadau a thystiolaeth** rydych chi'n anelu atynt.

### gwaith paratoi

➔ galluogi ac awgrymu cyfleoedd i staff a rheolwyr gwasanaeth weithio gydag artistiaid i **archwilio sut gall creadigrwydd helpu i wella'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu i gleifion a chymunedau**

➔ sefydlu a noddi **prosiectau datblygu'r gweithlu** sy'n defnyddio'r celfyddydau a chreadigrwydd i ddeall profiadau staff, a chefnogi eu lles yn y gwaith

### profi

➔ cysylltu timau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd â'r bobl a'r timau iawn yn eich sefydliadau i gefnogi'r gwaith o brofi a datblygu syniadau

➔ creu a meithrin diwylliant yn eich sefydliad lle mae **agweddau a syniadau newydd, arbrofol hyd yn oed, yn cael eu gwerthfawrogi,** a lle mae staff yn teimlo y gallant edrych y tu hwnt i'r hyn sydd ar eu swydd ddisgrifiadau

### buddsoddi

➔ **bod yn glir ynghylch y dystiolaeth** (canlyniadau, straeon, dulliau) a fyddai'n eich annog i gyfeirio pobl at brosiectau celfyddydol – a/neu eu cefnogi o'ch cyllidebau comisiynu

➔ cysylltu ymarferwyr a sefydliadau celfyddydol â **thimau data, arloesi a gweithredu** eich sefydliad i gefnogi gwerthusiadau

### tyfu

➔ **annog arweinwyr eraill** yn eich sefydliad a thu hwnt iddo i werthfawrogi'r celfyddydau, creadigrwydd ac arloesi yn eu hamgylcheddau, a gwneud mwy na dim ond hyrwyddo'r gwaith hwn: gwneud iddo ddigwydd

### 3. Argymhellion ar gyfer ymchwilwyr a gwerthuswyr i gefnogi timau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd

***chi yw hwn os**: ydych chi'n gweithio i brifysgol neu os ydych chi'n ymchwilydd llawrydd, sy'n arbenigo mewn ymchwilio a/neu werthuso prosiectau arloesi yn y celfyddydau neu iechyd*

#### prif argymhelliad cyffredinol

➔ gweithio ochr yn ochr â thimau prosiect, arweinwyr iechyd a chyfranogwyr drwy gydol y broses arloesi, gan eu cefnogi i ddefnyddio **dulliau ymchwil a gwerthuso priodol** ar gyfer cam yr arloesi

#### gwaith paratoi

➔ **deall y diwylliannau a'r materion trefniadaethol** a wnaeth y prosiect hwn yn angenrheidiol

➔ dechrau **dod o hyd i ddulliau casglu data posibl** a thrafod cyfyngiadau posibl gyda thimau prosiect

➔ creu a chynnal **proffil ar Rwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru**

#### profi

➔ datblygu **protocol ymchwil cychwynnol ymarferol a hyblyg** sy'n addas ar gyfer iteriad ac sy'n canolbwyntio ar ganfod cwestiynau ymchwil posibl ar gyfer camau diweddarach

➔ cyfrif am y broses yn ogystal â'r effaith gan fod y broses yn debygol o ddatblygu a newid wrth i ddulliau newydd gael eu profi

➔ arbrofi gyda **mesurau canlyniadau ystyrlon a safonol yn lleol** i ganfod yr offer casglu data mwyaf addas ar gyfer eich prosiect

#### buddsoddi

➔ **bod yn glir ynghylch eich costau, eich proses, eich disgwyliadau a'r hyn sydd ar gael** ar gyfer cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil, a'r hyn sy'n gysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cynllun ar gyfer pwy fydd yn casglu data ac yn ysgrifennu adroddiadau

➔ cefnogi prosiectau i **gofnodi ansawdd ochr yn ochr â nifer**, ee y newid mwyaf sylweddol, ymchwiliad gwerthfawrogol

**tyfu**

➔ cynnal a rhannu **meta-ddadansoddiad ac adolygiadau o dystiolaeth bresennol** yn ôl math o brosiect, cyflwr iechyd neu leoliad, er mwyn helpu pobl i ddeall cyd-destun eu datblygiadau arloesol

➔ symleiddio ymchwil: g**wneud eich adroddiadau a'ch allbynnau'n hygyrch** a rhannu eich ymchwil yn y termau symlaf posibl lle bynnag y bo modd

➔ cyflwyno eich ymchwil i **feysydd polisi ac iechyd** (ee Grwpiau Trawsbleidiol) i helpu i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

## 4. Argymhellion ar gyfer hwylusydd rhwydwaith i gefnogi timau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd

***chi yw hwn os***: *oes gennych chi rôl, efallai o fewn rhwydwaith, cynghrair neu ganolfan genedlaethol, sy'n cefnogi ac yn cynnull pobl sy'n gweithio ar brosiectau'r celfyddydau ac iechyd*

### prif argymhelliad cyffredinol

➔ cefnogi ymarferwyr a'r sector i **wneud y cysylltiadau â strategaethau a blaenoriaethau iechyd y darlun mawr**, ac eirioli dros eu gwaith

### gwaith paratoi

➔ datblygu cynlluniau sy'n cynnig **sgiliau a datblygu gwybodaeth** i ymarferwyr a sefydliadau celfyddydol sydd eisiau gweithio, neu sydd eisoes yn gweithio, mewn lleoliadau iechyd

➔ darparu cyfleoedd rhwydweithio a digwyddiadau lle gall **gweithwyr iechyd proffesiynol rannu eu heriau** a chwrdd ag ymarferwyr y celfyddydau, pobl â phrofiad uniongyrchol ac ymchwilwyr i weithio gyda nhw ar yr her honno

### profi

➔ datblygu **cynigion hyfforddi** sy'n helpu partneriaethau arloesi i gydweithio'n fwyaf effeithiol

➔ darparu **adnoddau, templedi a dolenni**, yn enwedig o ran modelau ariannu, gwerthuso a sut gall timau prosiect wneud eu gwaith yn hysbys i gynulleidfaoedd allweddol (ee llunwyr polisi)

➔ **creu llefydd i arloeswyr ddod at ei gilydd** i bwyso a mesur y gwaith hwn, a mynegi ei werth

### buddsoddi

➔ cynnig **cymorth a goruchwyliaeth i ymarferwyr** i helpu'r bobl sy'n gweithio yn y maes hwn i ymdopi â gofynion y gwaith

➔ **mabwysiadu ffocws dysgu:** casglu a rhannu data eich aelodau am bynciau allweddol sy'n berthnasol i'r gwaith hwn (ee tystiolaeth a gwerthuso)

### tyfu

➔ **casglu a chyfuno gwerthusiadau a gwersi ymarferol** o amrywiaeth eang o brosiectau arloesi yn y gofod hwn, a'u rhannu ag ymchwilwyr academaidd a chyllidwyr i'w helpu i nodi prosiectau a meysydd newydd addawol.

## 5. Argymhellion ar gyfer lluniwr polisi i gefnogi timau arloesi yn y celfyddydau ac iechyd

***chi yw hwn os:*** *ydych chi'n swyddog etholedig, neu'n cefnogi gwaith swyddog o'r fath, gyda diddordeb mewn hyrwyddo gwaith yn y maes hwn, neu faes sy'n gysylltiedig ag ef (ee Presgripsiynu Cymdeithasol). Mae gennych chi rywfaint o ddylanwad ar y modd y caiff arian cyhoeddus ac adnoddau eu dyrannu.*

### prif argymhelliad cyffredinol

➔ **mynegi'n glir beth yw rolau, cylch gwaith a blaenoriaethau cyrff statudol** – iechyd, gofal, y celfyddydau – a nodi ac ariannu meysydd clir a phenodol ar gyfer cydweithio rhyngddynt (ee iechyd meddwl, presgripsiynu cymdeithasol)

### gwaith paratoi

➔ **cefnogi a chymell arweinwyr awdurdodau lleol ac iechyd i alluogi arloesi,** ac archwilio sut gall y celfyddydau a chreadigrwydd gyfrannu at eu blaenoriaethau sefydliadol, yn enwedig yn y meysydd hyn

### profi

➔ **clustnodi cyllid** ar gyfer cyrff iechyd a gofal statudol a chyllidebau cyllidwyr ymchwil **ar gyfer atal ac arloesi**

➔ rhoi arweiniad clir i gomisiynwyr ynghylch **natur, tôn a dulliau gwerthuso llwyddiant mewn systemau iechyd a gofal.** At beth ydyn ni'n anelu?

### buddsoddi

➔ caniatáu ar gyfer **cylchoedd cynllunio a chyllidebu tymor hwy** ar gyfer cyllid iechyd a gofal statudol, ee y GIG ac awdurdodau lleol

➔ **cefnogi ac annog awdurdodau lleol** i roi cymhorthdal i weithgareddau celfyddydol ar gyfer iechyd a lles cymunedol

➔ **ystyried sut rydyn ni'n mesur llwyddiant mewn cyrff statudol**, gan werthfawrogi gwybodaeth sy'n dangos cynnydd o ran y canlyniadau sydd bwysicaf i'r bobl dan sylw, yn ogystal â data meintiol

### tyfu

➔ **normaleiddio mynediad at ddiwylliant a'r celfyddydau i bawb fel rhywbeth sy'n ganolog i fywyd, iechyd a lles** (fel sy'n digwydd gyda chwaraeon, er enghraifft)

➔ **siapio ein heconomi tuag at les**, lle mae buddsoddiad yn y celfyddydau'n cael ei wneud gyda'r nod o wella lles pobl ac atal salwch, sydd wedyn yn ei dro o fudd i systemau iechyd a gofal ac yn lleihau'r galw.